

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar yr 18fed o Fai, 2021 am 2.00 y.h.

Presennol : Cyngorwyr R Dew, Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, R LI Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts J A Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones a Gary Pritchard

Hefyd yn bresennol: Neb

(2.00 y.h – 2.55 y.h)

| | |
|---------------------|---|
| RHIF EITEM A'R PWNC | 1. Ethol Cadeirydd y Cyngor |
| PENDERFYNIAD | PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Glyn Haynes fel Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2021/22. |
| RHIF EITEM A'R PWNC | 2. Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor |
| PENDERFYNIAD | PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Dafydd Roberts fel Is-Gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2021/22. |
| RHIF EITEM A'R PWNC | 3. Datganiadau o Ddiddordeb |
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb. |
| RHIF EITEM A'R PWNC | 5. Cadarnhau'r Cynllun Dirprwyo |
| PENDERFYNIAD | PENDERFYNWYD cadarnhau rhan o'r fath o'r Cynllun Dirprwyo fel y mae'r Cyfansoddiad yn gorchymyn ei bod yn fater i'r Cyngor ei benderfynu fel y nodir yn Rhan 3.2 o'r Cyfansoddiad. |

| | |
|---------------|---|
| RHIF A'R PWNC | 6. Cadarnhau Pwyllgorau |
| PENDERFYNIAD | <p>Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodiad y strwythur Pwyllgorau fel y cyfeiriwyd ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol :-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwyllgor Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor) • Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau • Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) • Is-Bwyllgor Indemniadau |

| | |
|-------------------------------------|---|
| RHIF EITEM A'R PWNC PENDERFYNIAD | 7. Dirprwyaeth gan yr Arweinydd - Aelodaeth o'r Pwyllgor Gwaith |
| PENDERFYNIAD | <p>Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 o'r Cyfansoddiad, enwodd yr Arweinydd y Cyngorwyr a ddewiswyd i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ynghyd â'u chyfrifoldebau Portffolio :-</p> <p>Cynghorydd Richard Dew gyda chyfrifoldebau Portffolio am Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd; Cynghorydd Llinos M Huws (Arweinydd) gyda chyfrifoldebau Portffolio am Wasanaethau Cymdeithasol; Cynghorydd Carwyn Jones gyda chyfrifoldebau Portffolio am Brosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd; Cynghorydd R Meirion Jones gyda chyfrifoldebau Portffolio am Addysg, Pobl Ifanc, Llyfrgelloedd a Diwylliant; Cynghorydd Alun Mummery gyda chyfrifoldebau Portffolio am Dai a Chefnogi Cymunedau; Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS gyda chyfrifoldebau Portffolio am Briffyrdd, Eiddo a Gwastraff; Cynghorydd Dafydd R Thomas gyda chyfrifoldebau Portffolio am Wasanaethau Corfforaethol; Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd) gyda chyfrifoldebau Portffolio am Drawsnewid a'r Gymraeg; Cynghorydd Robin Williams gyda chyfrifoldebau Portffolio am Gyllid.</p> |

| | |
|-------------------------------------|---|
| RHIF EITEM A'R PWNC PENDERFYNIAD | 8. Ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2020/21 |
| PENDERFYNIAD | Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o'r Cyfansoddiad, PENDERFYNWYD y dylid ethol y Cynghorydd Robert LI Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2021/22. |

| | |
|-------------------------------------|--|
| RHIF EITEM A'R PWNC PENDERFYNIAD | 9. Trefniadau Cydbwysedd Gwleidyddol o fewn y Cyngor |
| PENDERFYNIAD | <p>PENDERFYNWYD:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi a ddyrannwyd i bob un o'r Grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; • Bod Arweinwyr Grŵp yn cynghori'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl os oes unrhyw newidiadau i Aelodaeth Grŵp ar Bwyllgorau. |

| | |
|---------------------|--|
| RHIF EITEM A'R PWNC | 10. Cyrff Allanol |
| PENDERFYNIAD | PENDERFYNWYD cytuno a chadarnhau penodiadau fel y manylir yn amserlen yr adroddiad. |

| | |
|---------------------|--|
| RHIF EITEM A'R PWNC | 11. Datblygu Aelodau |
| PENDERFYNIAD | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad. |

| | |
|---------------------|--|
| RHIF EITEM A'R PWNC | 12. Rhaglen o gyfarfodydd y Cyngor Sir yn 2021/22 |
| PENDERFYNIAD | <p>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredinol y Cyngor Sir am y flwyddyn i ddod: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • 7 Medi, 2021 – 2.00 y.h • 28 Medi, 2021 – 2.00 y.h • 26 Hydref, 2021 (Arbennig) – 2.00 y.h • 7 Rhagfyr, 2021 – 2.00 y.h • 22 Chwefror, 2022 – 2.00 y.h |

- **Mai 2022 (Cyfarfod Blynyddol) – dyddiad i'w gadarnhau**